**EITEM AR YR AGENDA: 16**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD:** | 26ain Hydref 2005 |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PETER SLEE,<br>PRIF SWYDDOG CYNORTHWYOL<br>(GWASANAETHAU CORFFORAETHOL)** |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | Rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd wrth ateb yr arbedion effeithlonrwydd yng nghyllideb cyflogau'r diffoddwyr tân rhan amser. |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Yng nghyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 25ain Gorffennaf 2005, cytunodd yr aelodau y gellid cael yr arbedion effeithlonrwydd o £294,123 yng nghyllideb cyflogau'r diffoddwyr tân rhan amser, a chymeradwywyd y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer cyflogau'r diffoddwyr tân rhan amser ar gyfer 2005/2006 o £4,450,143.

1.2 Gofynnodd yr aelodau hefyd am y diweddaraf am y cynnydd wrth gael yr arbedion hynny, ac i nodi unrhyw arbedion effeithlonrwydd eraill y gellid eu gweld.

2. **Y CYNNYDD**

2.1 Ynghlwm wrth yr adroddiad mae Atodiad A sy'n dangos y gyllideb ddiwygiedig a gymeradwywyd; yr alldro amcanol a'r balans a ragwelir ar 31ain Mawrth 2006.

2.2 Gall yr aelodau weld yn Atodiad A fod y Gwasanaeth ar y targed i gael yr arbedion effeithlonrwydd o £294,123.

2.3 Yn y cam hwn o'r adolygiad o'r gyllideb, ni ragwelir unrhyw arbedion effeithlonrwydd eraill.

3. **ARGYMHELLIAD**

3.1 Bod yr aelodau'n nodi'r adroddiad, a bod adroddiad cynnydd pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Panel Gweithredol yn Ionawr 2006.